

# Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy\*

Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy sy'n darparu atebion sy'n seiliedig ar natur a rheoli tir yn gynaliadwy i wella bioamrywiaeth, mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a gwella iechyd a lles.

Mae'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy wedi ymrwmo **£23m** o gyllid y Rhaglen Datblygu Gwledig hyd yma ar gyfer cyfanswm o **50 o BROSIECTAU**.



Y Cynllun  
Rheoli  
Cynaliadwy



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Mae prosiectau'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy yn cymryd camau gweithredu ar raddfa tirwedd a dalgylch i:

Addasu i'r  
newid yn yr  
hinsawdd




Cefnogi  
cydnerthedd  
ecosystemau



Gwella iechyd  
pridd ac  
ansawdd dŵr



Rheoli a  
phlannu coetir



Lleihau  
perygl  
llifogydd



Gwella  
bioamrywiaeth



Cefnogi  
iechyd a lles



Datblygu  
Gallu ac  
Arbenigedd  
Sgiliau



Annog cydlyniant  
cymunedol a  
datblygiadau a  
arweinir yn lleol



Cefnogi sgiliau  
gwledig,  
diwylliant a  
threftadaeth



## Adfer cynefinoedd a mawndiroedd

- Gwerth bron i **2500 hectar** o fawndiroedd wedi'u hailwlychu a'u hadfer.
- Gwerth **3380 hectar** o waith adfer cynefinoedd.
- **50km** o wrychoedd wedi'u plannu a'u hadfer hyd yn hyn.

## Rheoli a phlannu coetiroedd

- Dros **40,000 o goed** wedi'u plannu hyd yma gyda dros **2000 hectar** o goetiroedd wedi'u rheoli

## Rhaglenni gwirfoddoli ac ymgysylltu â'r gymuned

- Dros **600 o wirfoddolwyr** wedi cymryd rhan.
- Dros **500 diwrnod** o weithgareddau wedi ymgysylltu â thros **2000 o bobl**.

## Adeiladu cydweithrediadau a phartneriaethau

- Dros **300 o ffermwyr** wedi cymryd rhan ac wedi elwa ar y cynllun.
- Bron i **5000 o randdeiliaid** wedi cymryd rhan ar draws pob prosiect.
- **Nifer o grwpiau amlasiantaethol** wedi'u sefydlu gan gynnwys y Gwasanaeth Tân, timau heddlu gwledig lleol, awdurdodau lleol a thirfeddianwyr; mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon, troseddau gwledig a rheoli'r dirwedd er budd pawb.

## Iechyd pridd, ansawdd dŵr, lleihau llygredd amaethyddol a rheoli perygl llifogydd naturiol

- Mae prosiectau ar raddfa dalgylch sy'n cwmpasu **8 afon** wedi gweithredu **35** o argaeau sbwriel a choediog, **sawh hectar** o barthau glannau a blannwyd.
- **1000 o fetrau** o ffensys i gael gwared ar dda byw o gyrsgau dŵr.
- **Bron i 200 o gynlluniau gwytnwch** i wella ansawdd dŵr, strwythur pridd ac iechyd ar draws ffermydd.

## Rhaglenni addysgol

- Dros **40 o ysgolion** ledled Cymru wedi cymryd rhan
- **Gwersylloedd preswyl yn y goedwig** ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd.
- **14,000 o fyfyrwyr** wedi cymryd rhan mewn dysgu ar-lein.
- Dros **3000 o bobl ifanc** wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol.

## Sgiliau a hyfforddiant gwledig a chreu swyddi

- **1800 o bobl** wedi cymryd rhan mewn dros **240 o ddiwrnodau hyfforddi** gyda **72 o unigolion** yn ennill cymhwyster.
- **35 o swyddi** wedi'u creu a **21 o swyddi** wedi'u diogelu.

## Mwy o fynediad i fannau awyr agored

- **Dros 60Km o lwybrau mynediad** wedi'u creu neu eu huwchraddio gydag arwyddion gwell.
- **Sawh taith dywys** ar gyfer gwahanol alluoedd ac anghenion.

\* Darperir y Cynllun Rheoli Cynaliadwy gan Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop.